# Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mercher, 6 Mawrth 2024 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Bobby Feeley, Carol Holliday, Arwel Roberts a Mark Young (Is-gadeirydd)

**Aelodau Lleyg** – David Stewart (Cadeirydd), Paul Whitham a Nigel Rudd

Yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Gwyneth Ellis

**Arsylwr –** Y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes – Swyddog Monitro (GW), Pennaeth Cyllid ac Archwilio (Swyddog Adran 151) (LT), Archwilydd Mewnol (BC), Pen Archwilydd Mewnol (SD), Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad (IMcG), Gweinyddwr Pwyllgor (NH) (Gweinyddwr Zoom) a’r Gweinyddwr Pwyllgor (SJ).

Roedd cynrychiolwyr o Archwilio Cymru Mike Whiteley, Charles Rigby, Duncan Mackensie a Lora Williams hefyd yn bresennol.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Justine Evans.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr Aelod Lleyg, Nigel Rudd, gysylltiad personol gan ei fod yn aelod o Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Datganodd y Cadeirydd, yr Aelod Lleyg David Stewart, gysylltiad personol gan ei fod yn derbyn pensiwn Cronfa Bensiynau Clwyd a nodir yn eitem 6 yn y rhaglen ac roedd yn aelod o’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam mewn perthynas ag eitem 11 ar y rhaglen.

Datganodd yr Aelod Lleyg Paul Whitham gysylltiad personol gan ei fod yn derbyn pensiwn Cronfa Bensiynau Clwyd fel nodir yn eitem 6 yn y rhaglen.

Datganodd y Cynghorydd Arwel Roberts gysylltiad personol gan ei fod yn derbyn pensiwn Cronfa Bensiynau Clwyd fel nodir yn eitem 6 yn y rhaglen.

Datganodd y Cynghorydd Ellie Chard gysylltiad personol gan ei bod yn derbyn pensiwn Cronfa Bensiynau Clwyd fel nodir yn eitem 6 yn y rhaglen.

Datganodd y Cynghorydd Mark Young gysylltiad personol gan ei fod yn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Dinbych a grybwyllir yn eitem 7 yn y rhaglen.

## 3 MATERION BRYS

Dim.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2024 i'w hystyried.

Materion cywirdeb –
Tudalen 9 – Cofnodion – dylai'r 'cylch gorchwyl ar gyfer
y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Cyngor a'r Pwyllgorau Craffu gyda'i gilydd' yn y paragraff olaf ddarllen fel 'nad ydynt' gyda'i gilydd.
Tudalen 17 - Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon 22/23 – dylai'r penderfyniad hefyd gynnwys aelodau sydd wedi cytuno i dderbyn yr adroddiad fel atodiad i'r adroddiad Cwynion Blynyddol y mae ei ddisgwyl yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Materion yn codi –
Tudalen 9 a 10 – y Cofnodion – nododd Mr Nigel Rudd ei fod wedi cytuno i ddarparu nodyn yn crynhoi ei safbwyntiau yn y cyfarfod diwethaf ac y byddai'r nodyn hwnnw, a oedd wedi ei hepgor o'r cofnodion, yn cael ei ddosbarthu i'r pwyllgor. Cadarnhaodd ei fod wedi cwblhau nodyn ac wedi ei anfon i'r Cadeirydd a'r swyddogion i'w drosglwyddo i Aelodau. Roedd y nodyn a ddarparwyd yn ymdrin â nifer o eitemau er gwybodaeth i Aelodau. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro ei fod wedi derbyn y nodyn gan yr Aelod Lleyg Nigel Rudd, ymddiheurodd nad oedd wedi dosbarthu'r nodyn i Aelodau ond byddai'n datrys y mater ac yn ei ddosbarthu i Aelodau.

Tudalen 8 – Cofnodion – Materion yn codi – Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y pwyllgor y byddai cyfarfod yn cael ei drefnu rhwng y Prif Archwilydd Mewnol a'r Swyddog Monitro cyn i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor. Cadarnhaodd y Prif Archwilydd Mewnol y byddai'n adolygu pa wybodaeth oedd ar gael ar godau llywodraeth leol ac yn nodi cyfarfod yn y dyddiadur gyda'r Swyddog Monitro.

Tudalen 8 – Cofnodion – Materion yn codi – Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod cyfarfod wedi ei gynnal rhwng Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor a rheoleiddwyr amrywiol ac roedd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Swyddog Monitro wedi mynegi pryderon y cyngor. Ymdriniwyd â'r pryderon a godwyd gan y pwyllgor, fe ystyriwyd o ganlyniad i gael cyfarfod wyneb yn wyneb nad oedd angen anfon llythyr at y rheoleiddwyr.

Tudalen 10 – Cofnodion – Materion yn codi – Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd bod yn ymwybodol o amseru'r cyfarfodydd mewn perthynas â phroses y gyllideb. Roedd angen iddo gynnwys gwaith y pwyllgor mewn cyd-destun ehangach. Roedd yn adlewyrchiad o rôl y pwyllgor a'i allu i ychwanegu gwerth heb

ddyblygu prosesau eraill yn ddiangen. Dylai Cylch Gorchwyl y Pwyllgor gynnwys rôl a swyddogaeth y pwyllgor.
Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod 170 o gyfarfodydd yn cael eu trefnu'n flynyddol, byddai calendr o gyfarfodydd y Cyngor gobeithio yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ym Mai 2024 ar gyfer ei gadarnhau ar gyfer y 18 mis canlynol o ran yr amserlen. Byddai sylwadau'r pwyllgor yn cael eu hystyried pan fyddai'r amserlen yn cael ei llunio.

Tudalen 12 – Rheoli'r Trysorlys – cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid y sleidiau hyfforddi wedi i sesiwn hyfforddi Arlingclose gael ei gylchredeg i Aelodau. Hefyd nododd fod sesiwn ychwanegol wedi ei threfnu ar gyfer y rhai hynny na allai fod yn bresennol yn y sesiwn olaf.
Roedd gwaith yn parhau mewn perthynas â'r ymrwymiad i rannu'r terfynau amser gan fenthyg o Fanc Seilwaith y DU. Y gobaith yw y bydd ar gael yn y flwyddyn ariannol newydd.
Cadarnhawyd fod copi o'r adroddiad Cyfalaf a'r strategaeth Gyfalaf wedi eu dosbarthu i'r holl Aelodau. Yn ei barn hi dylai craffu'r Dangosyddion Darbodus Cyfalaf hynny orwedd o fewn y rhaglen Gyfalaf.

Tudalen 14 – Rheoli'r Trysorlys – Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid ei bod wedi cysylltu ag Arlingclose yn rhoi gwybod iddynt am y pwyllgorau'n codi risg cyfathrebu rhwng yr Awdurdod ac Arlingclose i sicrhau eu bod yn ymwybodol o bwy i gysylltu â nhw os nad oedd y Pennaeth Cyllid ar gael neu fel arall yr unigolyn priodol i gysylltu ag ef.
Cadarnhaodd fod cyfarfod wedi ei drefnu rhyngddi hi ac Arlingclose ac y byddai'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y pwyllgor yn y cyfarfod hwnnw. Gan gynnwys a oedd ganddynt farn ar y rhaglen Gyfalaf a ragwelir.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, derbyn cofnodion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2024 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

## 5 CAU DATGANIAD CYFRIFON

Croesawodd y Cadeirydd y cynrychiolydd o Archwilio Cymru, Mike Whiteley, i'r cyfarfod i gyflwyno diweddariad ar lafar ar y cynnydd a wnaed o ran gwaith Archwilio Cymru mewn perthynas â'r Datganiad Cyfrifon.

Atgoffodd y cynrychiolydd o Archwilio Cymru yr Aelodau yr anfonwyd y cynnydd yn ymwneud â'r Datganiad Cyfrifon a archwiliwyd i Aelodau yn ystod y cyfarfod diwethaf. Cytunwyd ar slot yn rhaglen waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ebrill i gyflwyno'r adroddiad terfynol.

Roedd yn falch o adrodd fod y gwaith archwilio'n dod yn ei flaen yn dda. Cadarnhaodd ei fod yn llwyddiannus yn sicrhau adnoddau ychwanegol gan glystyrau eraill o fewn Archwilio Cymru i gefnogi gyda'r gwaith archwilio. Gan ragdybio nad oedd yna unrhyw broblemau gyda'r gwaith a oedd yn weddill, roedd Archwilio Cymru yn parhau ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn diwedd Mawrth ac yn barod i'w gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ebrill.

Pwysleisiodd fod yna risg yr oedd eisiau i Aelodau fod yn ymwybodol ohono. Roedd materion cenedlaethol wedi codi o rai archwiliadau cenedlaethol a gwblhawyd ar hyd a lled Cymru a allai gael effaith ar yr holl awdurdodau. Roedd gwaith yn digwydd gyda'r Pennaeth Cyllid a'r tîm Cyllid i sefydlu a oedd y materion hynny yn bresennol yn Sir Ddinbych. Roedd yn parhau yn ddyddiau cynnar, ond yn ddibynnol ar y canlyniad byddai angen i'r cyngor ymgymryd ag ychydig o waith ychwanegol ac yna dylid ei archwilio. Nid oedd yn sicr ar y cam hwn i ddweud a oedd y mater yn berthnasol i Sir Ddinbych ai peidio. Cadarnhaodd y cynrychiolydd o Archwilio Cymru y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau drwy'r Cadeirydd.

Gofynnodd Aelodau mewn perthynas â'r awdurdodau eraill yng Nghymru lle roedd Sir Dinbych mewn perthynas â nhw o ran cwblhau'r archwiliad o'r datganiad cyfrifon. Wrth ymateb dywedodd y cynrychiolydd o Archwilio Cymru fod yna o leiaf 5 neu 6 archwiliad yn parhau i awdurdodau lleol hyd y gwyddai ef.
Cadarnhaodd y byddai'n dod o hyd i'r ffigyrau mwyaf cyfredol ac yn eu dosbarthu i Aelodau yn dilyn y cyfarfod.

Wrth ymateb i bryderon Aelodau ar yr effaith y byddai'n ei gael ar Gyngor Sir Ddinbych, clywodd Aelodau na fyddai'n cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y llinell sylfaen o ran cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yr awdurdod. Byddai'r effaith yn cael ei weld ar y cronfeydd na ellir eu defnyddio, y pethau hynny nad ydynt ar gael yn uniongyrchol i gefnogi darparu gwasanaethau. Hefyd, y Pennaeth Cyllid, y goblygiadau o ran adnoddau yn ymwneud â'r oedi a'r gwaith ychwanegol sydd ei angen a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar y tîm.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r diweddariad ar lafar.*

**6 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM BROSES Y GYLLIDEB**

Cyflwynodd y Cadeirydd y diweddariad ar lafar gan y Pennaeth Cyllid. Atgoffodd Aelodau mai adroddiad dilynol oedd hwn o'r cyfarfod diwethaf. Atgoffodd Aelodau y cytunwyd i dderbyn diweddariad ar lafar yn y cyfarfod hwn gydag adroddiad arall i'w gyflwyno yng nghyfarfod Pwyllgor mis Ebrill.

Clywodd Aelodau nad Cyngor Sir Ddinbych yw'r unig awdurdod sy'n wynebu heriau ariannol. Roedd amgylchiadau digynsail yn wynebu Aelodau a swyddogion.

Diolchodd y Pennaeth Cyllid i'r Cadeirydd am y cyflwyniad. Dywedodd wrth y pwyllgor fod y Cyngor Sir wedi cyfarfod ar 30 Ionawr 2024 i gymeradwyo'r gyllideb £24.6m o bwysau a bod y gyllideb yn cael ei chydbwyso drwy gyfuniad o £10.4m mewn arbedion a oedd yn cyfateb i 42%, y Grant Cynnal Refeniw o £6.7m yn y setliad drafft a oedd yn cyfateb i 27% a'r incwm o dreth y cyngor a oedd yn £7.5m ar gyfer gwasanaethau'r cyngor o 8.23% a 1.11% ar gyfer tân a oedd yn cyfateb i gyfanswm wedi'i gyfuno o 9.34%.
Fe fu'r Cyngor Sir yn cyfarfod eto ar 27 Chwefror a phasiwyd y penderfyniad ffurfiol ar Dreth y Cyngor. Roedd gan y pwyllgor ddyletswydd i benderfynu. Hefyd derbyniodd a chymeradwyodd Raglen Gyfalaf yr awdurdod a'r Strategaeth Rheoli Trysorlys. Roedd hynny yn cwblhau'r holl waith cyllidebol yn ffurfiol ar gyfer rownd y gyllideb ar gyfer 2024/25.

Cafodd yr arbedion £10.4m eu rhannu yn brosiectau mawr (newid o ran darparu'r gwasanaeth) ac arbedion nad ydynt yn rhai strategol. Atgoffodd Aelodau fod targed wedi ei ddyrannu o ran arbedion o £3m i'r holl Benaethiaid Gwasanaeth ei gyflawni. Roedd gwaith wedi ei wneud i gyflawni'r arbedion hynny.
Roedd gweithdai Aelodau yn digwydd dros yr wythnosau i ddod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar yr holl feysydd o ran arbedion. Teimlwyd fod hyn yn angenrheidiol gan y byddai cyfran o'r arbedion hynny o'r cynllun ymadael gwirfoddol. Clywodd Aelodau fod y cynllun ymadael gwirfoddol nawr wedi dirwyn i ben. Fel rhan o'r cynllun roedd gweithwyr yn cyflwyno cais i adael y sefydliad gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth wedyn yn cwblhau achos busnes ar gyfer pob unigolyn a oedd yn asesu'r effaith ar y tîm/gwasanaeth ac yn darparu safbwynt ynglŷn ag a ellid rhyddhau'r swydd honno. Cafodd yr holl achosion busnes hyn eu hystyried gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol, cafwyd tua 140 o geisiadau gyda phenderfyniad yn gorfod cael ei wneud ynglŷn â nhw. Roedd hyn wedi ei gwblhau ac roedd Penaethiaid Gwasanaeth, gyda chefnogaeth staff Adnoddau Dynol, yn y broses o gyfathrebu'r penderfyniad a wnaed i'r staff. Y gobaith yw y bydd y broses wedi ei chwblhau yn ystod yr wythnosau nesaf. Roedd wedi bod yn broses drwyadl ac yn broses o ddysgu i'r awdurdod.

Roedd gwaith wedi dechrau ar draciwr, i weld sut y byddai'r arbedion yn cael eu holrhain, wedi dechrau. Roedd Penaethiaid Gwasanaeth yn y broses o gwblhau hynny a byddent yn bwydo hyn yn y gweithdai sydd i ddod. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid y byddai'n cynnwys hyn yn yr adroddiad sydd i'w gyhoeddi ym mis Ebrill.
Yn anffurfiol roedd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi bod yn bwydo yn ôl i'r Cabinet ar y targed arbedion o £3m ac yn dod ymlaen yn dda. Roedd pob maes gwasanaeth yn hyderus y byddent yn bodloni pob targed. Y broblem o bosibl fydd cyflawni'r targed erbyn 1 Ebrill 2024.

Cafwyd y setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru ar 27 Chwefror 2024. Roedd yna symudiad bach yn y ffigyrau o ganlyniad i'r hyn a drosglwyddwyd i mewn ar gyfer grantiau. Pwysleisiwyd nad oedd yn cael unrhyw effaith ar lefel y cyllid, y cyllid ychwanegol oedd grantiau a ddisgwyliwyd gan yr awdurdod. Roedd yn cynnwys y canlyniadol, roedd hwn yn gyllid roedd Llywodraeth Cymru wedi'i dderbyn o ganlyniad i gynnydd mewn gwariant ar ofal cymdeithasol yn Lloegr. Amcangyfrifwyd fod y cyllid yn £25m ar draws Cymru. Roedd £10m wedi ei roi i gynnal y grant gweithlu gofal cymdeithasol. Gyda'r cronfeydd yn weddill wedi eu trosglwyddo i'r grantiau cynnal refeniw. Roedd hynny yn cyfateb i £484,000 ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych.

Gan edrych ymlaen at 2025/26, clywodd Aelodau y byddai strategaeth ariannol tymor canolig a chynllun ariannol tymor canolig yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn Ebrill 2024. Byddai'n ffurfio rhan o'r adroddiad a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Ebrill fel rhan o'r diweddariad ar y gyllideb. Byddai'n cynnwys y pwyntiau a godwyd yn flaenorol gan Mr Nigel Rudd.
Roedd disgwyl i weithdy ar gyfer yr holl Aelodau gael ei gynnal ym Mai a fyddai'n canolbwyntio ar drawsnewid, byddai rhagor o fanylion yn cael eu darparu.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Cyllid am y diweddariad ar lafar.

Yn ystod y drafodaeth trafodwyd y meysydd canlynol mewn mwy o fanylder.

- Byddai arbedion ac asesiadau o effaith yn ffurfio rhan o'r gweithdai. Byddai Aelodau yn clywed am yr effaith ar wasanaethau. Roedd yna ymrwymiad i weithio a chryfhau'r asesiadau lles. Roedd rhai o'r prosiectau arbedion mawr wedi datblygu ymhellach nac eraill ac felly roedd monitro'n parhau.
- Roedd monitro risgiau yn cynnwys datblygu traciwr arbedion, byddai hefyd yn cynnwys monitro incwm. Byddai incwm hefyd yn cael ei olrhain drwy'r adroddiadau monitro cyllideb a gaiff eu cyflwyno i'r Cabinet.
- Mae gan bob Prosiect Cyfalaf ei gofrestr risg ei hun. Roedd rhaid i bob prosiect ymgymryd â nifer o gymalau o ran y cynllun busnes cyn cael eu creu ac fe gymrodd lawer o amser i gyrraedd y cymal adeiladu.
- Roedd penderfyniadau gwleidyddol blaenorol ar flynyddoedd blaenorol wedi digwydd cyn i'r Pennaeth Cyllid ddod i'r swydd. Atgoffodd Aelodau pan osodwyd cyllideb 2023/4 roedd yna angen i wneud arbedion sylweddol. Nododd yr adroddiad arbedion misol fod yna angen i geisio £8m i osod y gyllideb. Roedd chwyddiant yn uchel iawn yn ystod y cyfnod hwn. Yn ei barn hi ar gyfer 2023/24 roedd y gyllideb wedi ei gosod yn is ond nid allan o drefn. Ar gyfer y flwyddyn 2024/25 roedd nifer o awdurdodau cyfagos wedi cynyddu Treth y Cyngor o tua 9%. Ar draws y ddwy flynedd wedi eu cyfuno ac o'i gymharu â lefel chwyddiant roedd yn cymharu dros yr un cyfnod. Roedd y galw ar wasanaethau hefyd wedi cael effaith ar wasanaethau.
- Roedd y setliad a gafwyd gan Lywodraeth Cymru wedi ei seilio ar fformiwla a oedd wedi ei seilio ar angen a'r elfen wledig. Roedd yr angen yn adlewyrchu amddifadedd y wlad.
- Pwysleisiwyd fod yna effaith wleidyddol yn y broses gwneud penderfyniadau. Er bod swyddogion yn ymwybodol o'r hyn a gaiff ei ddarogan ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod roedd yna botensial bob amser y byddai'r rhain yn newid ac roedd yn bwysig i gydbwyso toriadau a chyfraddau treth.
- Roedd yna ystod eang o ddata a deunydd a rannwyd gyda Llywodraeth Cymru a oedd yn bwydo i fformiwla'r setliad. Nid oedd rhan helaeth y data yn cael ei ddarparu gan Gyngor Sir Ddinbych. Roedd mwyafrif y data a ddarparwyd y tu hwnt i reolaeth swyddogion ac yn cael ei ddarparu o feysydd eraill.
- Canmolodd Aelodau yr Aelod Arweiniol a'r Pennaeth Cyllid am yr ymrwymiad a'r gwaith caled a wnaed i gynhyrchu'r adroddiad a chydbwyso cyllidebau. Cydnabuwyd nad oedd y Pennaeth Cyllid presennol wedi bod yn y swydd y llynedd ac roedd yn anodd i gael trafodaeth ar y penderfyniadau blaenorol hynny a oedd wedi eu gwneud.
- Mewn perthynas â phryderon a materion a godwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mae'r Aelod Arweiniol, Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Monitro'n gwrando ar y rhain ac maent yn cael eu trosglwyddo. Y pwyllgor sydd â'r grym i wneud argymhelliad ffurfiol mewn perthynas ag unrhyw beth i'w wneud â'r broses sydd i'w hystyried gan y Cyngor Sir neu'r Cabinet.
- Cynigiwyd calendr o gyfarfodydd ac mae'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn flynyddol. Byddai swyddogion yn ystyried holl faterion a phryderon y

pwyllgor pan fyddai'r cylch nesaf o gyfarfodydd yn cael ei gynnig. Gellir gwneud addasiadau os oes angen. Tra bo pryder am gapasiti ac adnoddau o ran cyfarfodydd arbennig roedd modd addasu ar gyfer y rhain.

- Nododd Aelodau gais Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned i ryddhau Cyngor Sir Ddinbych o ychydig o'r byrdwn ariannol. Ni allai Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned osod praeseptau gan nad oeddent yn gwybod beth fyddai'r toriadau a allai gael eu gosod arnynt. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cyflymder penderfyniadau a dyddiadau i lywio penderfyniadau pellach.
- Nododd cynrychiolwyr o Archwilio Cymru fod y gwaith cynaliadwyedd ariannol ar hyn o bryd yn y cymalau terfynol o ran nodi'r cwmpas. Roedd swyddogion o Archwilio Cymru yn cyfarfod â Chymdeithas Trysoryddion Cymru i weithio ynghyd i siapio'r hierarchaeth a chwmpas y gwaith. Y cwestiwn cyffredinol a osodwyd oedd 'a oes gan y cyngor drefniadau priodol i gefnogi cynaliadwyedd ariannol?'. Byddai perfformiad hanesyddol a'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol ac arbedion yn cael eu hadolygu. Roedd yn flaenoriaeth i Archwilio Cymru ar gyfer y dyfodol a'r gobaith oedd i ddechrau'r gwaith yn Ebrill / Mai i'w gwblhau tua Mehefin 2024.
- Pwysleisiodd Aelodau bwysigrwydd dangos yn gynnar os oedd yna unrhyw bryderon na fyddai'r gyllideb yn cael ei chydbwyso ar y pwynt cynharaf. Nododd y Cadeirydd ei fod yn hapus i dderbyn unrhyw ddiweddariadau y tu allan i amserlen y cyfarfodydd ac yn hapus i'w cynnwys fel eitemau brys ar raglenni os ydynt y tu allan i'r terfynau amser adrodd. Gofynnodd Aelodau hefyd am gael gwybod y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynigion o ran arbedion a allai fod yn anghywir neu ddim am gael eu cyflawni.
- Hefyd byddai angen i unrhyw ddigwyddiadau neu newidiadau a allai achosi pryder ar gyfer trefniadau llywodraethu'r awdurdod gael eu cyflwyno i'r pwyllgor yn gynnar. Cytunodd y Pennaeth Cyllid gyda sylwadau'r Pwyllgor a sicrhau y byddai unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau yn cael eu cyfathrebu gyda'r Aelodau.
- Byddai Archwilio Mewnol yn monitro'r broses olrhain ac yn codi unrhyw bryderon yn ymwneud â phryderon y gyllideb gyda'r Tîm Gweithredol Corfforaethol a phwyllgorau perthnasol.
- Byddai gostyngiad yn nifer y staff yn cael effaith. Pwysleisiodd Aelodau bwysigrwydd cydnabod y gallai ymatebion gymryd mwy o amser. Pwysleisiwyd pwysigrwydd bod yn agored a thryloyw gyda'r cyhoedd ac Aelodau pan fo angen ymateb neu gam gweithredu.
- Fe wneir Aelodau yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau o ran cydweithio yn arbennig mewn perthynas â llywodraethu'r cyngor ac effeithiau'r gyllideb.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau a'r swyddogion am y drafodaeth fanwl.

***PENDERFYNWYD*** *fod yr Aelodau'n nodi'r diweddariad ar lafar cyn i'r adroddiad ffurfiol gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Ebrill 2024.*

Ar y pwynt hwn (11.00 am) cafwyd egwyl o 10 munud.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.10 am.

## 7 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol a'r Pen Archwilydd Mewnol yr adroddiad (wedi'i ddosbarthu'n flaenorol). Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar gynnydd y Tîm Archwilio Mewnol o ran darpariaeth gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd mewn ysgogi gwelliant.

Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth am y gwaith a wnaed gan Archwilio Mewnol ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor. Roedd yn galluogi'r pwyllgor i fonitro perfformiad a chynnydd Archwilio Mewnol yn ogystal â darparu crynodeb o adroddiadau Archwilio Mewnol.
Cafwyd cadarnhad bod 12 Archwiliad wedi'u cwblhau ers adroddiad diwethaf y pwyllgor ym mis Tachwedd 2023. Pwysleisiodd y Prif Archwilydd Mewnol pa mor galed roedd ei dîm wedi gweithio i gwblhau'r archwiliadau hynny. Pwysleisiodd ynghyd â gofynion y 7 ymchwiliad arbennig roedd y swyddogion yn gweithio'n ddiflino i gwblhau'r gwaith a gynlluniwyd ochr yn ochr â'r archwiliad ychwanegol. Roedd 11 o'r archwiliadau wedi derbyn graddfa sicrwydd uchel ac 1 canolig. Roedd manylion pob archwiliad a gwblhawyd wedi eu cynnwys yng ngwaith papur adroddiad y rhaglen. Atgoffodd Aelodau eu bod yn derbyn pob archwiliad wedi eu cwblhau cyn i'r adroddiad diweddaru gael ei gyflwyno i'r pwyllgor ac roedd yn hapus i dderbyn unrhyw gwestiynau drwy e-bost pan fo'r adroddiadau hynny wedi eu dosbarthu.

Arweiniodd y Prif Archwilydd Mewnol yr Aelodau drwy'r tabl o adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru sy'n benodol i Gyngor Sir Ddinbych yr oedd disgwyl yr ymgymrwyd â hwy yn
2023/24. Clywodd Aelodau ei fod wedi llunio adroddiad ar gyfer y Tîm Gweithredol Corfforaethol, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet ar adroddiadau Archwilio Cymru gyfan.

Cafodd Aelodau eu harwain drwy fanylion Ymweliadau Estyn a'r archwiliadau allanol eraill a gwblhawyd ar waith ac arferion yr awdurdod.

Rhoddodd y Prif Archwilydd Mewnol y wybodaeth ddiweddaraf ar wneuthuriad yr adran ac roedd yn falch gyda'r cynnydd yr oedd y tîm yn ei wneud o ran dysgu a datblygu sgiliau.
Darparwyd manylion yn ymwneud â'r rhaglen waith a'r archwiliadau arfaethedig. Bu'n rhaid gohirio rhai o'r archwiliadau a raglennwyd yn gychwynnol o ganlyniad i'r amser roedd archwilwyr wedi ei roi i'r saith ymchwiliad arbennig. Y gobaith oedd y byddai 50% o'r cynllun cychwynnol wedi ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Arweiniwyd Aelodau i'r adran mesurau perfformiad o'r adroddiad. Pwysleisiodd fod mesurau perfformiad y tîm wedi gwella dros y 3-4 mis diwethaf. Roedd yn falch o adrodd fod pob maes perfformiad heblaw am un yn mynd y tu hwnt i'r targed.

Roedd y mesur ar ‘Ganran y camau gweithredu a gytunwyd gan archwilio sydd wedi eu gweithredu gan ysgolion wedi cynyddu ers yr adroddwyd hynny ddiwethaf i’r pwyllgor. Pwysleisiwyd fod un aelod o’r tîm wedi gweithio’n hynod o galed i wella’r maes perfformiad hwn ac roedd mewn cyswllt rheolaidd gyda’r ysgolion yn yr awdurdod.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Prif Swyddog Mewnol am y cyflwyniad manwl.

Yn ystod y drafodaeth –

- Meddyliodd y Cadeirydd y byddai o fudd i rannu unrhyw sylwadau roedd y tîm archwilio wedi eu cylchredeg o sylwadau a chwestiynau’r Aelodau y tu allan i’r cyfarfod i holl Aelodau’r pwyllgor.
- Cytunwyd hefyd fod y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ar yr archwiliadau allanol ac adroddiadau o fudd i Aelodau a chytunwyd i fynd ymlaen i’w cynnwys mewn adroddiadau diweddaru.
- Roedd yn destun siom i nodi fod y ffurflenni CYBLD wedi eu dinistrio. Clywodd Aelodau fod hyfforddiant wedi ei ddarparu i sicrhau nad oedd yn digwydd eto. Roedd yn braf i Aelodau nodi eu bod nawr yn cael eu cadw’n ddigidol a bod yna gopïau caled.
- Ar hyn o bryd mae gan Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Sir Ddinbych ac mae disgwyl i hwn ddod i ben eleni. Wrth symud ymlaen maent wedi cyflogi eu harchwilwyr mewnol eu hunain. Roedd y cytundeb Aelodau mewn grym o hyd ac roedd yn galluogi’r awdurdod i gynnal unrhyw archwiliadau y dymunai. Wrth symud ymlaen byddai Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig yn ffurfio rhan o’r cynllun archwilio blynyddol.
- Roedd cyfarfodydd rheolaidd yn parhau gyda’r Pennaeth Addysg i drafod archwiliadau sydd wedi eu cwblhau mewn ysgolion a chanfyddiadau o bob archwiliad. Roedd yn anodd i swyddogion ddweud a fyddai’r cyfyngiadau presennol a’r goblygiadau ariannol yn cael effaith ar ysgolion.
- Ni chlywyd erioed o’r blaen am saith ymchwiliad arbennig mewn un flwyddyn. Nododd y Prif Archwilydd mewnol nad oedd erioed o’r blaen wedi profi’r nifer hwnnw o ymchwiliadau arbennig mewn un flwyddyn. Wrth symud ymlaen roedd yn gobeithio y byddai’r nifer yn lleihau ond ni allai ddweud i sicrwydd, nododd fod y nifer wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Pwysleisiodd y byddai’n rhoi ychydig o elfennau wrth gefn yn y cynllun archwilio ar gyfer y flwyddyn nesaf.
- Byddai’r cynllun archwilio ar gyfer y flwyddyn nesaf yn wahanol i’r blynyddoedd blaenorol. Byddai’n parhau i ffurfio rhan o’r Strategaeth Archwilio Mewnol sydd i’w gyflwyno i’r pwyllgor ym Mehefin 2024 ond byddai’n dal i gynnwys yr holl elfennau statudol sydd eu hangen i lunio barn archwilio.
- Mae’r Prif Archwilydd Mewnol yn mynychu cyfarfodydd y Tîm Gweithredol Corfforaethol yn rheolaidd i gyflwyno adroddiadau a chanfyddiadau. Roedd y Tîm Gweithredol yn awyddus i drafod unrhyw effeithiau ar berfformiad, effeithiau llywodraethu yn ymwneud â thargedau arbedion a pha mor effeithiol oedd yr awdurdod mewn cyflawni’r arbedion hynny a byddai’n ffocws allweddol ar gyfer y tîm archwilio mewnol ar gyfer y dyfodol.
- Diolchodd Aelodau i’r tîm archwilio am y gwaith caled a’r gefnogaeth a ddarparwyd i Ysgol Uwchradd Dinbych dros y misoedd diwethaf.

- Roedd y gwaith arfaethedig ar fathodynnau glas yn golygu edrych ar yr adolygiad o brosesau i sicrhau fod y risg o dwyll cyn lleied â phosibl. Roedd yr archwiliad arfaethedig yn archwiliad dilynol i sicrhau fod yr holl risgiau'n parhau mor isel â phosibl. Wrth gwblhau'r archwiliad dilynol, byddai swyddogion yn edrych ar y trefniadau mewn grym i gefnogi'r unigolyn yn ystod y cyfnod ymgeisio.
- Gofynnodd Aelodau o ran y diweddariad nesaf os y byddai'r archwiliadau sydd wedi eu disodli yn cael eu dangos ar y diweddariad nesaf er gwybodaeth. Cadarnhaodd y Prif Archwilydd Mewnol y gallai gynnwys rhai o'r meysydd a oedd wedi eu disodli yn yr adroddiad diweddaru nesaf.
- Roedd y Cadeirydd yn falch o nodi'r archwiliad sydd i gychwyn ar Reoli Rhaglen a Phrosiect. Nododd y Cadeirydd y gwaith archwilio a gynlluniwyd yn ymwneud â rheoli risg, y cyfnod caffael - cyn tendr a rheoli asedau a byddai'n rhoi sicrwydd i Aelodau wrth drafod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Awgrymodd Aelodau ochr yn ochr â'r sesiwn hyfforddiant arfaethedig ar raddfeydd sicrwydd Archwilio Mewnol, gallai gwybodaeth ar y broses gwmpasu fod yn rhan o benderfynu ar Archwilio Mewnol.
- Awgrymwyd y dylid cynnwys yr eitemau canlynol fel meysydd ar gyfer hyfforddiant – sesiwn dilynol ar hunan-asesiad y pwyllgor, swyddogaeth archwilio, rheolau a rheoliadau caffael a rheoli risg.
- Roedd yna swyddogaeth yn Outlook i hysbysu'r anfonwr os oedd y neges e-bost wedi ei derbyn a'i darllen. Pan fo archwiliad wedi ei gwblhau roedd yr adroddiad drafft cychwynnol yn cael ei gylchredeg gyntaf i swyddogion a fu'n ymwneud â'r archwiliad / gwasanaeth unwaith roedd yr adroddiad hwnnw wedi ei gymeradwyo roedd yn cael ei symud i fersiwn derfynol a'i gylchredeg i restr derbyn a oedd yn rheolaidd.
- O ran adroddiad adsefydlu'r DU, y Swyddfa Gartref oedd yr awdurdod arweiniol, llinell adrodd wahanol i Lywodraeth Cymru. Codwyd materion a phryderon drwy wahanol weithgorau rhanbarthol yr oedd y Prif Archwilydd Mewnol a'r Pen Archwilydd yn eu mynychu. Rydym yn gofyn cwestiynau i'r awdurdod arweiniol lle roedd angen ymateb.
- Amlygodd Aelodau fel rhan o'r rhaglen trawsnewid fe allai fod yn werth edrych ar ffyrdd o gyflwyno deallusrwydd artiffisial. Croesawodd swyddogion yr awgrym a gynigiwyd gan Aelodau.
- Byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei chyflwyno i'r pwyllgor mewn perthynas ag ymchwiliadau arbennig. Unwaith roedd ymchwiliadau wedi eu cwblhau fe fyddant yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgor ar ffurf adroddiad cyfrinachol. Arsylwyd cydymffurfedd llawn pob gwasanaeth roedd archwilio mewnol wedi bod yn ymwneud â nhw. Byddai manylion llawn yn cael eu darparu i'r pwyllgor maes o law.
- Llongyfarchodd Aelodau'r tîm ar ddarganfod £48,000 fel rhan o ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol. Awgrymodd Aelodau y gall fod yn stori gadarnhaol a allai gael ei rhannu gyda'r gymuned ehangach i hyrwyddo'r gwaith da roedd y tîm wedi ei wneud.

***PENDERFYNWYD*** *bod aelodau'n nodi cynnydd a pherfformiad Archwilio Mewnol.*

## 8 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM BARTNERIAETHAU I GYNGOR SIR DDINBYCH

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol yr adroddiad ar y wybodaeth ddiweddaraf am Bartneriaethau i Gyngor Sir Ddinbych (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Fel nodwyd yn yr adroddiad roedd y Prif Archwilydd Mewnol a'r tîm archwilio wedi wynebu oedi cyn dechrau gwaith ar drefniadau'r partneriaethau yn y cyngor. Roedd gwaith yn y maes hwn wedi dechrau ddiwedd y llynedd. Roedd y tîm wedi defnyddio adroddiad blaenorol a luniwyd yn 2016 fel pwynt cychwyn. Cadarnhawyd fod y tîm wedi cyfarfod â'r holl Benaethiaid Gwasanaeth ac wedi trafod y trefniadau'n ymwneud â gweithio mewn partneriaeth. Roedd Timau Rheoli ym mhob gwasanaeth wedi dechrau edrych ar drefniadau partneriaeth ac roeddent yn darparu gwybodaeth i'r tîm Archwilio Mewnol. Nod y gwaith oedd i edrych ar bartneriaethau ffurfiol ac anffurfiol a hefyd y trefniadau gwahanol sydd mewn grym ar hyd a lled Gogledd Cymru. Y gobaith oedd y byddai'r gwaith wedi ei gwblhau erbyn diwedd yr haf er mwyn i adroddiad diweddaru gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Medi. Clywodd Aelodau fod y Tîm Gweithredol Corfforaethol hefyd wedi gofyn am gipolwg o'r adroddiad i fonitro ac adolygu sut mae'r cyngor yn symud ymlaen gan gynnwys edrych ar y posibilrwydd o fwy o gydweithio a sut y byddai hynny'n cael ei reoli yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Archwilydd Mewnol am yr adroddiad a'r cyflwyniad. Nododd y rheswm pam roedd y pwyllgor wedi gofyn am y gwaith i ddangos y trefniadau partneriaeth o fewn yr awdurdod i'r Aelodau. Roedd Aelodau yn flaenorol wedi gofyn am ymarfer mapio ac roeddent yn falch o glywed fod bwriad i'w gwblhau. Elfen allweddol o'r gwaith y gofynnwyd amdano oedd y trefniadau llywodraethu a phwy sy'n gyfrifol am fonitro gwahanol elfennau.
Roedd y Prif Archwilydd Mewnol yn teimlo fod yr awdurdod a gwasanaethau yn ymwybodol o'r partneriaethau oedd ganddynt, ar hyn o bryd nid oedd yn cael ei gynnal yn gorfforol yn unman. Roedd ymagwedd ar draws y cyngor tuag at y partneriaethau yn hanfodol.

Clywodd Aelodau y byddai'r tîm Archwilio Mewnol yn ymwneud â Phrosiectau'r Gronfa Ffyniant Bro. Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam oedd yr awdurdod arweiniol ar gyfer cyflawni cam 1. Roedd y tîm yn aros am gyfarwyddyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ynglŷn â chyfeiriad y gwaith fyddai ei angen gan dîm Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ddinbych. Teimlwyd mai'r gofyniad fyddai i archwilio'r prosiectau rhwng Ebrill – Mehefin er mwyn sicrhau fod arian wedi ei wario a'i wario'n briodol a bod y prosiectau wedi eu cyflawni. Byddai'r gwaith yn ffurfio rhan o'r cynllun archwilio.

Teimlai'r aelod lleyg Nigel Rudd y byddai wedi bod yn ddefnyddiol i'r pwyllgor fod wedi derbyn adroddiad templed drafft, wedi ei gwblhau hyd eithaf gallu'r swyddog gyda'r wybodaeth eisoes wedi ei gael a byddai'n dangos unrhyw fylchau yn eglur. Byddai'n rhoi'r cyfle i Aelodau ddod yn ymwybodol o'r bylchau hynny i roi sylw i'r rheiny. Yn ei farn ef roedd yr adroddiad yn ddarn o waith tasg a gorffen, a allai gael ei gyflawni mewn cyfnod byrrach o amser.
Hefyd nododd fod yna Bwyllgor Craffu Partneriaethau yng Nghyngor Sir Ddinbych a fyddai'n awgrymu fod yr awdurdod yn ymwybodol o'r partneriaethau presennol.

Dywedodd wrth Aelodau ei fod wedi adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a’r llwyth gwaith a oedd yn mynd i’r afael â rhai meysydd o bartneriaethau ond hefyd yn ei farn ef meysydd amrywiol nad oeddent yn gysylltiedig â phartneriaethau a oedd yn cael eu cynnal gan yr awdurdod. Teimlai fod yna oblygiadau yn y gwaith y gofynnodd y pwyllgor amdano a oedd yn gofyn am i gylch gorchwyl pwyllgorau eraill gael eu hadolygu. Pwysleisiodd bwysigrwydd gweld y mapio drafft cychwynnol i ddechrau’r broses honno.
Adleisiodd y Cynghorydd Bobby Feeley bryderon y Pwyllgor Craffu Partneriaethau.

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y pwyllgor fod yr adran gyfreithiol wedi cwblhau ychydig o waith ar drefniadau partneriaeth gan sicrhau fod yr adran gyfreithiol yn rhan o hyn pan oedd angen.
Nododd fod y Cydbwyllgor Corfforaethol yn gorff rhanbarthol a oedd wedi ei sefydlu. Roedd yn gorff sofran a oedd yn annibynnol oddi wrth y cynghorau. Roedd yn cynnwys holl nodweddion yr awdurdodau lleol ac felly roedd angen iddo gael ei drefniadau craffu ei hun. Cyngor Gwynedd oedd yr awdurdod arweiniol; roeddent yn ymgynghori â’r awdurdodau eraill ar y ffordd ymlaen fel cyd-bwyllgor. Hefyd byddai angen iddo gael ei Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei hun. Roedd adroddiad yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 22 Mawrth 2024 a oedd yn nodi rhai o’r trefniadau rhanbarthol a sut y cyflawnwyd Craffu rhanbarthol.
Cytunodd nad oedd gan yr awdurdod daflen fapio a oedd yn nodi pwy oedd yn gyfrifol am bartneriaethau a llywodraethu. Pwysleisiodd fod gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol ddiddordeb mewn deall mwy am weithio gyda phartneriaid a beth oedd yn gweithio’n dda ac effeithlon yn ogystal â beth y gellid ei wella neu ei addasu i weithio’n well.

Pwysleisiwyd i’r pwyllgor fod y tîm Archwilio Mewnol wedi bod yn hynod o brysur ac wedi bod yn rhan o nifer o ymchwiliadau arbennig ochr yn ochr â’r gwaith archwilio a gynlluniwyd. Cadarnhaodd y byddai’n gweithio ochr yn ochr â’r Prif Archwilydd Mewnol a swyddogion i gefnogi’r tîm i gael ymatebion ar gyfer Archwilio Mewnol yn brydlon. Roedd yn cydnabod pwysigrwydd cwblhau’r gwaith hwn.
Roedd strwythur y Cynllun Corfforaethol wedi ei newid o dan ofynion y ddeddfwriaeth.

Clywodd Aelodau fod yna dri phwyllgor craffu o fewn yr awdurdod. Roedd rhaid i bartneriaethau ganslo cyfarfod diweddar o ganlyniad i ddiffyg busnes. Roedd Aelodau nid yn unig yn gyfrifol am y rhaglen; gallai swyddogion hefyd ofyn am eitemau ar y rhaglen ar gyfer trafodaeth graffu. Yn flaenorol anogwyd gwneud y pwyllgor craffu yn un a gâi ei yrru gan Aelodau a bod eitemau a gyflwynir i’r Pwyllgor Craffu yn feysydd o ddiddordeb i’r Aelod.

Pwysleisiodd yr Aelod Lleyg Paul Whitham pa mor ddynamig oedd y darn hwn o waith. Roedd yn ddarn o waith a fyddai bob amser yn fyw ac yn newid o dro i dro.
Hefyd pwysleisiwyd y pwysigrwydd o fod yn bragmataidd o ran yr hyn sy’n diffinio partneriaeth.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn ac yn nodi’r adroddiad cynnwys gyda rhestr bartneriaeth gywir i’w chyflwyno i’r pwyllgor yng nghyfarfod y pwyllgor ym Medi 2024*.

## 9 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd Rhaglen Waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w ystyried (roedd wedi ei ddosbarthu'n flaenorol).

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor ei fod, yn ogystal â'r Is-gadeirydd, wedi cyfarfod gyda swyddogion ym mis Chwefror i drafod y Rhaglen Waith. I adolygu a rhesymoli'r rhaglen waith.
Pwysleisiwyd pwysigrwydd cydbwyso'r llwyth gwaith dros gyfarfodydd. Y pwysigrwydd o gael ychydig o hyblygrwydd pan oedd yn ymwneud â meysydd penodol fel y Datganiad Cyfrifon.

Dywedodd y Cadeirydd wrth Aelodau fod yr Adroddiad Blynyddol ar y cyfansoddiad wedi ei ohirio o Ionawr 2024 ac roedd nawr wedi ei drefnu ar gyfer cyfarfod Ebrill 2024. Nododd y Swyddog Monitro fod angen i'r pwyllgor gael adroddiad blynyddol. Nid oedd adroddiad llawn yn ymwneud â'r cyfansoddiad ar gael ar gyfer cyfarfod mis Ebrill. Byddai adroddiad ar gylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei gyflwyno ar gyfer trafodaeth.

Roedd cyfarfod nesaf y Pwyllgor wedi ei drefnu ar gyfer 24 Ebrill. Roedd disgwyl i'r Datganiad Cyfrifon gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfod hwnnw a phwysleisiodd y Cadeirydd ei bod yn bosibl y bydd rhaid rhoi amser i'r eitem honno o ganlyniad i natur y drafodaeth.

Roedd y Pwyllgor wedi cytuno'n flaenorol ar unrhyw adroddiad gwybodaeth ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ac nid oedd ar y rhaglen arfaethedig ar gyfer mis Mehefin.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r adroddiad Cwynion Blynyddol yn adroddiad a gyflwynwyd ar gyfer trafodaeth ac nid er gwybodaeth yn unig.

Roedd cyfarfod y Pwyllgor a oedd wedi ei drefnu ar gyfer Medi 2024 yn ysgafn iawn gyda dim ond 2 adroddiad gwybodaeth ar yr amserlen ar hyn o bryd.

O dan yr eitemau ar gyfer y rhaglen yn y dyfodol nododd y Cadeirydd fod yr adroddiad ar 'Y diweddaraf ar gomisiynu lleoliadau cartrefi gofal pobl hŷn' wedi mynd heibio ac nid oedd ei angen mwyach.
Roedd yna ofyniad o hyd i gynnwys adroddiad yn y dyfodol ar y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer ei drafod yn y dyfodol.
Mewn perthynas â Diweddariad Asesu yr Archwiliad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) nododd y Swyddog Monitro fod Aelodau wedi gofyn am i unrhyw ddatblygiadau neu ddiweddariadau gael eu cyfathrebu i'r Pwyllgor. Nododd y byddai'n cadarnhau gyda swyddogion ar gyfer unrhyw ddiweddariad.

O ran yr adroddiad yn y dyfodol ar Gylch Gorchwyl y Pwyllgor, cadarnhaodd Nigel Rudd ei fod wedi gofyn am i fesurau 2011 fod ar gael i Aelodau, sef y ddeddfwriaeth a yrrodd ffurfio Llywodraethu ac Archwilio, gan gynnwys y Cylch Gorchwyl.

Rhannwyd copi o Fesur Llywodraeth Leol Cymru 2011 gydag Aelodau'r pwyllgor ac ar Zoom.
Ym marn Mr Nigel Rudd roedd angen i Aelodau sicrhau fod gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddyletswydd i gydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth a'i fod yn cydymffurfio'n frwd. Felly pan ofynnir iddo wneud hynny gallai ddangos tystiolaeth o waith y pwyllgor.

Arweiniodd Aelodau drwy'r papur a chyfeiriodd Aelodau at adran 81(1) (a) a (b). Roedd y gair 'craffu' yn parhau i gael ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth ac roedd angen i hyn gael ei adlewyrchu yng ngwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
Yn ei farn ef roedd yn teimlo ei bod yn bwysig i ddarparu 'elfen o amddiffyniad' o fewn y Pwyllgor yn ymwneud â'r penderfyniadau y mae'r Cyngor yn eu gwneud mewn perthynas â gosod cyllideb gytbwys.
Roedd yn teimlo ei bod yn hanfodol fod y pwyllgor yn cael ac yn dadlau ochr ariannol yr awdurdod fel rhan o gylch systematig ar yr adeg iawn o'r flwyddyn.

Awgrymodd fod swyddogion yn ogystal â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn ailymweld â'r Rhaglen Waith i fynd i'r afael a gweld yr amser priodol i gynnwys adroddiadau ariannol yr awdurdod.
Arweiniodd Mr Rudd yr Aelodau drwy weddill Adran 81 (1) gan grwpio gyda'i gilydd yn ei farn ef y mathau o adroddiadau pwyllgor yr oedd rhaid eu cyflwyno i'r pwyllgor ar yr adegau priodol.

Amlygodd y sylw yn y papur lle roedd yn nodi mai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oedd i benderfynu sut i arfer ei swyddogaethau. Pwysleisiodd mai dyletswydd Aelodau'r pwyllgor oedd i benderfynu ei drafodaethau. Roedd yn bwysig fod y pwyllgor yn dangos ei fod wedi trafod yr holl adroddiadau o dan yr adran drwy gydol y flwyddyn.
Roedd yn teimlo fod y ddeddfwriaeth yn ddogfen bwysig i adlewyrchu dyletswydd y pwyllgor a dylai gyd-fynd â chylch gorchwyl y pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Lleyg am ei sylwadau. Cytunodd ei fod ef hefyd yn anhapus gyda'r cylch gorchwyl presennol ar gyfer y pwyllgor. Dywedodd wrth Aelodau ei fod wedi drafftio drafft cychwynnol o'r newidiadau arfaethedig i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor a fyddai'n cael ei rannu gydag Aelodau pan fo'r eitem yn cael ei drefnu i'w drafod. Roedd wedi cynnwys y gofynion yn ei ddrafft. Yn ei farn ef roedd yn teimlo nad oedd cod ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) mor fanwl a defnyddiol i lywio beth oedd yn cael ei gynnwys yn y Cylch Gorchwyl.
Roedd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyfrifoldeb eang ar gyfer materion ariannol yr awdurdod.
Roedd rhaid i rôl y pwyllgor fod yn glir i sicrhau fod yr holl aelodau'n eglur beth yw rolau a chyfrifoldebau'r pwyllgor.

Mynegodd Aelodau bryder y byddai'r gofynion arfaethedig yn effeithio fwy ar y Rhaglen Waith na'r llwyth gwaith trwm presennol. Lleisiwyd pryder y byddai'n rhoi gormod o bwyslais ar gyfarfodydd penodol. Roedd amseru'r adroddiadau'n hanfodol i sicrhau fod yr holl agweddau a gynigiwyd yn cael eu bodloni ar yr amser mwyaf priodol.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro mai Adran 81 y ddeddfwriaeth a rennir oedd yr hyn a ddisgwylid ei gael gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, dros y 12 mis diwethaf roedd y pwyllgor wedi cael adroddiadau o dan bob un o elfennau adran 81. Roedd yn cytuno fod grwpio agweddau penodol ynghyd i ddangos gwaith y pwyllgor yn awgrym da.
Clywodd Aelodau fod holl elfennau adran 81 a restrwyd yn cael eu cynnwys yn y cylch gorchwyl presennol. Cadarnhaodd ei fod yn hapus i drafod yr awgrym i ddiweddaru a diwygio'r cylch gorchwyl gyda'r Cadeirydd.
Roedd gwaith wedi ei wneud yn y gorffennol i adolygu unrhyw eitemau y gallai Pwyllgor Safonau'r awdurdodau ei gael i ysgafnhau llwyth gwaith trwm y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cytunwyd ar y pryd nad oedd unrhyw awydd i drosglwyddo unrhyw adroddiadau i'r Pwyllgor Safonau.
Diolchodd i'r Aelod Lleyg a'r Cadeirydd am y sylwadau gwerthfawr a'r awgrymiadau i wella cynnwys y Cylch Gorchwyl.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod yna fodd i alw cyfarfodydd arbennig neu eithriadol pan fo angen. Pwysleisiodd mai dim ond pan fo gwir angen hynny y dylent gael eu defnyddio gan ei fod yn effeithio ar adnoddau.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai'n dosbarthu'r canllawiau statudol ar waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac y byddai'n ei ddosbarthu i Aelodau.
Roedd yr eitem sefydlog a oedd yn cael ei chynnwys yn y Rhaglen Waith, yn ymwneud â materion a atgyfeiriwyd i'r pwyllgor gan y Pwyllgor Craffu, yn ymddangos yn y Rhaglen Waith ar gyfer pwyllgorau niferus gan fod gan y Pwyllgor Craffu y gallu i wneud argymhellion ffurfiol i rannau eraill o'r Cyngor. Nid yn aml roedd unrhyw faterion yn cael eu cyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn cyfarfodydd Craffu.

Dywedodd y Cynghorydd Bobby Feeley wrth Aelodau fod yna gyfarfod cyn y cyfarfod mewn pwyllgorau eraill i drafod meysydd i'w codi yn y cyfarfod ac awgrymu meysydd ar gyfer holi. Awgrymodd y Cadeirydd fod Aelodau'n rhoi cwestiynau iddo drwy e-bost cyn y cyfarfod i alluogi llif y cyfarfod ac amser i swyddogion baratoi unrhyw wybodaeth ar gyfer ymatebion i bryderon Aelodau.

***PENDERFYNWYD:***

- *Gan ystyried mesurau adran 11 ar y Ddeddf fel y trafodwyd uchod fod adolygiad o'r Rhaglen Waith yn cael ei gynnal rhwng swyddogion a'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd;*
- *yn amodol ar yr uchod fod diwygiadau i raglen waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael eu nodi.*

**ER GWYBODAETH**

**10 ADRODDIAD ARCHWILIO CYMRU - DEFNYDDIO GWYBODAETH AM BERFFORMIAD**

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr Archwilio Cymru am yr adroddiadau.

Nododd y Swyddog Monitro fod adroddiad Archwilio Cymru - Defnyddio Gwybodaeth am Berfformiad yn adroddiad cenedlaethol oedd wedi ei lunio.

Hefyd cadarnhaodd Arweinydd y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad fod yr ymateb sefydliadol wedi ei gynnwys gyda'r papurau.

Cadarnhaodd cynrychiolydd Archwilio Cymru Lora Williams fod yr adroddiad yn ffurfio rhan o adroddiad cenedlaethol ond roedd y papurau a gaiff eu cynnwys yn y rhaglen yn benodol i Sir Ddinbych. Dywedodd wrth y pwyllgor y byddai crynodeb cenedlaethol yn cael ei rannu yn nodi arferion da i gefnogi awdurdodau i gyflawni'r argymhellion a nodwyd yn adroddiadau'r awdurdodau unigol.

Arweiniwyd Aelodau at yr ymateb gan Gyngor Sir Ddinbych a oedd yn cael ei gynnwys yn nhudalennau 78-80 yn y rhaglen.

***PENDERFYNWYD fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi cynnwys adroddiad Archwilio Cymru – Defnyddio Gwybodaeth am Berfformiad.***

## 11 ADRODDIAD ARCHWILIO CYMRU - DATBLYGU CYNALIADWY? – GWNEUD Y DEFNYDD GORAU O DIR LLWYD AC ADEILADAU GWAG

Dywedodd y Cadeirydd wrth Aelodau y byddai'n cymryd eitemau 11, 12 a 13 yn adroddiad gwybodaeth Archwilio Cymru gyda'i gilydd.

Dywedodd yr Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad wrth Aelodau fod swyddogion ar hyn o bryd yn drafftio'r ymatebion sefydliadol ar gyfer yr adroddiadau ar Ddatblygu Cynaliadwy? - gwneud y defnydd gorau o dir llwyd ac adeiladau gwag a'r adroddiad ar yr Adolygiad Strategaeth Ddigidol.

Mewn perthynas ag eitem 11 yn y Rhaglen - Datblygu Cynaliadwy? - gwneud y defnydd gorau o dir llwyd ac adeiladau gwag, gofynnodd y Cynghorydd Mark Young a oedd yr holl adrannau a gwasanaethau yn rhan o'r trafodaethau yn ymwneud â gweithio tuag at yr argymhellion. Mewn ymateb cadarnhaodd yr Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad fod ymateb y rheolwyr wedi ei adolygu gan Emlyn Jones, Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad, yn ogystal â swyddogion perthnasol.

Cytunwyd ar yr argymhellion a oedd yn cael eu cynnwys yn adroddiadau Archwilio Cymru, gydag ymatebion sefydliadol swyddogol yn cael eu drafftio gan y Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol - Perfformiad, Digidol ac Asedau.

Unwaith byddant wedi eu cwblhau byddai'r ymatebion yn cael eu darparu i'r Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD*** *fod aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r adroddiad gwybodaeth.*

## 12 ADRODDIAD ARCHWILIO CYMRU - ADOLYGIAD STRATEGAETH DDIGIDOL

Trafodwyd eitem 12 yn y rhaglen o dan eitem 11 yn y rhaglen.

***PENDERFYNWYD*** *fod aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r adroddiad gwybodaeth.*

## 13 ADRODDIAD ARCHWILIO CYMRU - GOSOD AMCANION LLES

Trafodwyd eitem 13 o dan eitem 11.

***PENDERFYNWYD** fod aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r adroddiad gwybodaeth.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 13.20 p.m.**